**Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT**
**2 CHWEFROR 2023**

Cofnodion cyfarfod hybrid Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Iau, 2 Chwefror 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Teresa Carberry (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Paul Cunningham, Gladys Healey, Gina Maddison, Dave Mackie, Andrew Parkhurst, Carolyn Preece, David Richardson, Jason Shallcross ac Arnold Woolley

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Mrs Lynne Bartlett

**YMDDIHEURIADAU:** Mrs Wendy White

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Mel Buckley (ar ran y Cynghorydd Ryan McKeown)
Y Cynghorydd Debbie Owen (ar ran y Cynghorydd Bill Crease)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Roedd y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant a Chymunedau Cryf gan gynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael) yn bresennol fel arsylwr

**CYFRANWYR:**
Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden; y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) a'r Uwch Reolwr Gwella Ysgolion
Mr Liam Evans-Ford, Cyfarwyddwr Gweithredol Theatr Clwyd a Mr Aled Marshman, Cyfarwyddwr Cerddoriaeth, Ymddiriedaeth Cerddoriaeth Theatr Clwyd (ar gyfer eitem rhif 43 ar y rhaglen)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Hwylusydd Trosolwg a Chraffu, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 41. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorwyr Andrew Parkhurst a Carolyn Preece gysylltiad personol fel aelodau o Theatr Clwyd.

Datganodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) ei bod yn aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth.

## 42. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2022 fel a gynigiwyd ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Gladys Healey a'r Cynghorydd Debbie Owen.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2022 a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi fel cofnod cywir.

## 43. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol gan dynnu sylw at y diweddariadau a wnaed ers y cyfarfod diwethaf. Dywedodd y byddai'r adroddiad parcio ysgol yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod sydd wedi'i drefnu ar gyfer 23 Mawrth ac y byddai Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon. Bu iddi hefyd gadarnhau y byddai adroddiad Datblygiad Cynllun y Cyngor 2023/28 yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod ym mis Mawrth.

Wrth gyfeirio at yr Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu, cadarnhaodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau. Derbyniwyd dyddiad arfaethedig ar gyfer y gweithdy ar y Cynllun Cyflawni Darpariaeth Ieuenctid Integredig a bu iddi gadarnhau unwaith y bydd hwn yn cael ei gadarnhau bydd e-bost yn cael ei gylchredeg i Aelodau.

Cafodd yr argymhellion, fel yr amlinellir yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd Paul Cunningham a'u heilio gan Mrs Lynne Bartlett.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
(c) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu oedd heb eu cwblhau.

## 44. GWASANAETH CERDD THEATR CLWYD

Croesawodd y Cadeirydd Mr Liam Evans Ford, Cyfarwyddwr Gweithredol Theatr Clwyd a Mr Aled Marshman, Cyfarwyddwr Cerddoriaeth, Ymddiriedaeth Cerddoriaeth Theatr Clwyd i'r cyfarfod, a fyddai'n amlinellu sut y gwnaethon nhw ac aelodau o Ymddiriedaeth Cerddoriaeth Theatr Clwyd weithio i wella'r cyfleoedd dysgu a phrofiadau myfyrwyr.

Ychwanegodd y Cadeirydd bod cael eu haddysgu am gerddoriaeth a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â dysgu sut i chwarae offeryn wedi helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith, eu sgiliau rhesymu, eu sgiliau dysgu'n gritigol a sensitif ac fe all ddiffinio datblygiad sgiliau echddygol a gwella'r cof. Mae ochr greadigol a pherfformio'r pwnc ynghyd â gwell dealltwriaeth o'r rôl mewn cerddoriaeth a hanes a chymdeithas gyfoes i gyd yn ychwanegu at addysg lawnach i'r myfyriwr. Fel awdurdod, roedd Cyngor Sir y Fflint yn rhagweithiol yn eu hymdrechion i sicrhau bod bob myfyriwr yn cael y cyfle i wella eu profiad dysgu a hyrwyddo eu doniau, waeth pwy oeddent. Roedd hyn yn cynnwys myfyrwyr sy'n derbyn grant

disgyblion a ddyfarnwyd i ysgolion i gefnogi myfyrwyr a oedd yn gymwys am un ai prydau ysgol am ddim neu a oedd yn derbyn gofal. Roedd hwn yn grant wedi'i dargedu a roddwyd i oresgyn y rhwystrau a allai atal myfyriwr rhag cyrraedd ei botensial llawn.

Cyflwynodd Mr. Liam Evans-Ford adroddiad i roi diweddariad a throsolwg o Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Theatr Clwyd yn dilyn ei 18 mis cyntaf o ddarpariaeth, fel y gosodwyd yn erbyn egwyddorion trosglwyddo cytunedig yn 2019 gan y Portffolio Addysg o fewn y Cyngor i Theatr Clwyd. Dyluniwyd y trosglwyddiad hwn i ddiogelu i ddechrau, ond hefyd i wella darpariaeth cerdd gwasanaethau addysg ymhellach i blant a phobl ifanc Sir y Fflint a oedd o dan fygythiad oherwydd y pwysau ariannol cynyddol ar y Cyngor.

Wrth gyfeirio at yr adroddiad, amlinellodd Mr. Aled Marshman yr effaith negyddol yr oedd y pandemig Covid wedi'i gael ar gerddoriaeth a'r celfyddydau, gyda gostyngiad o 75% mewn dysgwyr rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mai 2020. Dywedodd y myfyrwyr hynny a oedd wedi aros gyda'r gwasanaeth pa mor bwysig yr oedd wedi bod i'w hiechyd a'u lles. Rhoddodd wybodaeth gefndir ar y trafodaethau a gynhaliwyd ym mis Medi 2020 o ran y ffordd ymlaen gyda'r penderfyniad i barhau ar-lein am y flwyddyn ond roedd hyn yn heriol ac roedd y cynnydd mewn niferoedd yn araf. Ym mis Medi 2021, gwelwyd niferoedd y dysgwyr yn dyblu wrth ddychwelyd i'r ysgol ond y nod oedd tyfu ymhellach i alluogi pob myfyriwr i gael y cyfle i fwynhau buddion cerddoriaeth yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Rhoddodd Mr. Marshman wybodaeth fanwl am y ddogfen gwmpasu, y polisi codi tâl a'r pum ensemble, a oedd wedi cynyddu i wyth yn dilyn y niferoedd cynyddol ym mis Medi 2022. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar y dechreuwyr newydd i greu taith bwysig iddynt a rhoddodd wybodaeth ar hyblygrwydd y system sydd ar waith i ysgolion. Darparwyd gwybodaeth hefyd ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth yng Nghymru a fyddai'n cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, gyda'r pwyslais ar bob plentyn ym mlwyddyn 3 yn profi o leiaf dau dymor mewn cerddoriaeth.

Crynhodd Mr. Evans-Ford yr heriau ar gyfer y dyfodol sef y costau i ysgolion, y costau i deuluoedd a gwneud y mwyaf o'r profiadau cyntaf hynny a llwybrau parhaus.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden, at ei amser fel plentyn yn yr ysgol yn dysgu sut i chwarae'r piano a'r ffliwt ac wedyn fel athro gyda'r traddodiad cerddoriaeth ardderchog yn gorawl ac yn offerynnol a oedd wedi bodoli yn yr ysgolion. Soniodd am y cyfleoedd sydd ar gael trwy'r Grant Datblygu Disgyblion a mecanweithiau eraill a fyddai'n galluogi'r holl bobl ifanc i gael y profiad gwerthfawr hwn, yn gyfartal ar gyfer chwaraeon, cerddoriaeth, y celfyddydau a mynd i theatrau. Roedd yn falch o'r cynnydd a wnaed a bu iddo ddiolch i Theatr Clwyd a'r Cyfarwyddwr Cerddoriaeth am yr holl waith a wnaed yn yr ardal hon ac roedd yn eu cefnogi'n llwyr gyda'u nodau ar gyfer plant Sir y Fflint.

Diolchodd y Cynghorydd Carolyn Preece i Mr. Evans-Ford a Mr. Marshman am gyflwyno eu hadroddiad ac awgrymodd y dylid anfon llythyr at yr holl Benaethiaid i annog ysgolion i hyrwyddo darparu'r gwasanaeth cerdd, sy'n

targedu plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal yn benodol. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r awgrym hwn.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Dave Mackie o ran dysgu ar-lein a chost, cyfeiriodd Mr. Marshman at ddysgu o Covid gan ddweud bod gweithio mewn byd digidol i greu sesiwn gweithredol yn hytrach nag un goddefol wrth ddysgu dechreuwyr yn allweddol. Roedd y llwyfan ar-lein yn dal i gael ei ddefnyddio gyda'r gwersi a ddysgwyd er enghraifft ar ddefnydd microffon ac amledd offerynnau. Roedd teuluoedd yn dal i dderbyn y cynnig ar-lein ar y cyd â'r cynnig wyneb yn wyneb gan ddarparu mwy o hyblygrwydd a galluogi dysgwyr i aros gyda'r un tiwtor hyd yn oed os oeddent wedi symud y tu allan i'r ardal. Darparodd Mr. Evans-Ford wybodaeth am y costau grŵp a gafodd eu gwasgaru yn erbyn costau un i un hefyd gan ddweud bod y system codi tâl newydd yn fwy tryloyw.

Mewn ymateb i sylwadau ar brofiadau cyntaf, cadarnhaodd Mr. Marshman mai dau dymor oedd hwn a oedd yn rhad ac am ddim i ysgolion, disgyblion a theuluoedd. Ar ddiwedd y ddau dymor, trefnwyd cyngherddau i ddangos i rieni beth ellir ei gyflawni, ac wedyn rhoddwyd gwybodaeth i rieni i fynd adref gyda nhw i ystyried parhau â'r dysgu. Wrth gyfeirio at y Grant Datblygu Disgyblion a Phrydau Ysgol am Ddim, roedd yn deall yn llawn bod y cyllidebau hyn o dan bwysau ac yn gallu cael eu defnyddio mewn sawl ffordd. Roedd yn cefnogi'n llwyr yr awgrym i ysgrifennu at benaethiaid i ofyn a oes modd hyrwyddo cerddoriaeth fel un o'r dewisiadau. Amlinellodd Mr. Evans-Ford y cyfleoedd a oedd ar gael gan fod y Cyngor wedi symud i'r model presennol a oedd yn cynnwys Grantiau Ymddiriedaeth a Sefydliad. Roedd trafodaethau yn datblygu gyda'r sefydliadau hyn i gael mwy o gyllid grant nad oedd yn gysylltiedig â'r Grantiau Datblygu neu Brydau Ysgol am Ddim.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Parkhurst o ran model y strwythur codi tâl, cadarnhaodd Mr. Marshman y cafodd model y strwythur codi tâl ei greu tair blynedd yn ôl pan nad oedd costau byw ar yr un lefel ag y mae heddiw. Rhoddodd drosolwg o'r costau ar gyfer gwersi grŵp gyda'r modelu a gynhaliwyd ar y dechrau gyda'r ffi yn lleihau o £53.20 yr awr yn yr hen fodel i £38.20 yr awr yn y model newydd. Roedd y tâl fesul awr yr un peth p'un ai ei fod ar gyfer gwersi grŵp neu unigol. Dywedodd ei fod yn falch o ansawdd a safon y cysylltiadau cerddoriaeth a oedd wedi galluogi darpariaeth o'r safon uchaf. Eglurodd Mr. Evans-Ford, pan gafodd y newid hwn ei roi ar waith, y brif nod oedd cadw athrawon cerdd a gyflogwyd gan awdurdodau cyfagos sy'n dewis gwneud eu cerddorion yn ddi-waith a chau eu gwasanaethau. Cadarnhaodd mai un o'r nodau dros y blynyddoedd sydd i ddod yw parhau i leihau'r costau hynny i deuluoedd ac ysgolion.

Dywedodd y Cynghorydd Parkhurst bod y tâl fesul awr o £38.20 yr un fath ar gyfer sesiynau grŵp ac unigol yn gywir o ran y gost i ysgolion ond nid dyma'r sefyllfa ar gyfer y gost i rieni neu eraill sy'n ariannu'r gwersi cerdd lle'r oedd cymhorthdal ar gael ar gyfer sesiynau grŵp a gwersi unigol, ac felly, roedd hwn yn ddrutach ac yn costio mwy na ellir ei gyflawni drwy wersi preifat.

Amlinellodd Mr. Marshman y gwaith a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf i wneud y wefan a'r ap yn haws i'w defnyddio. Roedd taliadau Debyd

Uniongyrchol hefyd wedi'u cyflwyno i helpu teuluoedd i wasgaru'r costau. Crëwyd y wefan i wasanaethau cerdd i alluogi ysgolion, teuluoedd a'r gwasanaeth cerdd i'w defnyddio, ond roedd yn eithaf newydd ac nid oedd yn cael ei ddefnyddio'n eang yn y DU. Roedd hwn yn gromlin ddysgu ond roedd yn gwella.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant a Chymunedau Cryf gan gynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael mewn perthynas â chynnal peilot y profiad cyntaf, cadarnhaodd Mr. Marshman bod hwn yn waith wedi'i dargedu. Roedd cynnal peilot y profiad cyntaf yn Golftyn a Queensferry yn golygu paru pob plentyn gyda'r cydymaith cerdd gan nodi'r bobl ifanc hynny a oedd yn mwynhau ac yn ffynnu yn y sesiynau hyn. Roedd y ffurflen adborth gan yr holl ysgolion a oedd yn rhan o'r peilot yn allweddol yn ogystal â'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen gaeaf llawn lles a oedd yn hanfodol i gyflawni'r niferoedd cynyddol hynny. Roedd ymgysylltu â rhieni i ddod i weld eu pobl ifanc yn mwynhau'r sesiynau ac arddangos yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu yn gorfod dod gan yr ysgolion. Eglurodd Mr. Ford-Evans mai'r heriau oedd cyffroi'r bobl ifanc, sicrhau bod y rhieni yn ei werthfawrogi a bod y Penaethiaid yn cymryd rhan. Roedd y straeon llwyddiannus i'w cael mewn ysgolion lle'r oedd y Penaethiaid yn hyrwyddo cerddoriaeth ac yn galluogi i'w disgyblion ddechrau ar eu taith gerddorol.

Diolchodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) ar ran y portffolio addysg am y ffyrdd arloesol a chreadigol yr oedd y gwasanaethau wedi gweithio i ddiogelu rhywbeth a oedd yn cael ei werthfawrogi gymaint yn Sir y Fflint. Cymerodd amser hir i ddatblygu'r model gan weithio gyda'r gwasanaeth cerdd, ysgolion a chymdeithasau proffesiynol i sicrhau ei fod yn llwyddiannus ac roedd yn falch ei fod yn parhau i ffynnu er ei fod mewn model gwahanol. Bu iddi dalu teyrnged i Mr. Marshman a oedd, drwy ei waith yn datblygu'r Cynllun Cerddoriaeth Cenedlaethol fel y cynrychiolydd CCAC ar gyfer Sir y Fflint, wedi llywio trafodaethau ar lefel genedlaethol. Roedd Llywodraeth Cymru (LIC) wedi cydnabod bod gwasanaethau cerdd o dan fygythiad ac wedi sicrhau bod symiau sylweddol o gyllid ar gael i ddiogelu'r cyfle hwn ar gyfer plant Cymru. Bu iddi amlinellu'r trafodaethau a gynhaliwyd gydag ysgolion ar sut ellir cynnal y model hwn gydag ymrwymiadau i leihau'r ffioedd a bod yr adroddiad hwn yn darparu sylfaen o lle'r oedd y gwasanaeth arni ar hyn o bryd.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr. Evans-Ford a Mr. Marshman am eu presenoldeb a gofynnodd iddynt gyfleu diolch y Pwyllgor i'w staff am y sgiliau, brwdfrydedd, gwybodaeth a mwynhad o gerddoriaeth yr oeddent yn ei ddod i ysgolion.

Cafodd yr argymhellion, fel yr amlinellir yn yr adroddiad, gyda'r argymhelliad ychwanegol i ysgrifennu at Benaethiaid fel yr awgrymwyd yn flaenorol gan y Cynghorydd Preece, eu cynnig gan y Cynghorydd Paul Cunningham a'u heilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod datblygiadau Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Theatr Clwyd, ers iddo gael ei greu, yn cynnwys yr heriau a gyflwynwyd gan y pandemig COVID-19, yn cael eu nodi;

(b) Bod y Pwyllgor yn cael sicrwydd bod Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Theatr Clwyd yn darparu Cynllun y Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol yn gadarnhaol ac yn weithredol er budd plant a phobl ifanc yn Sir y Fflint; a

(c) Bod llythyr yn cael ei anfon, ar ran y Pwyllgor, at yr holl Benaethiaid i annog ysgolion i hyrwyddo darpariaeth y gwasanaeth cerdd, sy'n targedu plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal yn benodol.

## 45. ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN AR BERFFORMIAD CYNLLUN Y CYNGOR 2022-23

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yr adroddiad monitro i adolygu'r cynnydd canol blwyddyn yn erbyn blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a nodwyd ar gyfer 2022/23. Roedd yr adroddiad sefyllfa derfynol ar gyfer Cynllun y Cyngor 2022/23 yn dangos bod 59% o weithgareddau'n gwneud cynnydd da. Roedd 70% o'r dangosyddion perfformiad wedi cyrraedd neu ragori eu targedau, roedd 9% yn cael eu monitro'n agos ac nid oedd 21% yn cyrraedd y targed ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd roedd un gweithgaredd yn dangos statws COG coch sy'n berthnasol i'r Pwyllgor o ran uwchsgilio gweithwyr portffolio trwy gynnig dysgu proffesiynol GwE a chyfleoedd hyfforddiant priodol eraill. Rhoddodd y Prif Swyddog wybodaeth at ei gilydd gyda manylion cylchredeg holiadur i weithwyr portffolio i ddeall pa hyfforddiant yr oeddent yn teimlo y byddai'n fuddiol iddyn nhw. Roedd yr holiaduron wedi'u dychwelyd ac roeddent yn cael eu coladu ar hyn o bryd er mwyn galluogi cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r meysydd o angen datblygiadol ar gyfer y portffolio a byddai hwn ar waith erbyn mis Ebrill 2023.

Croesawodd y Cadeirydd bod Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023 yn cael ei fonitro'n gyson a bod ei gynnydd yn cael ei adolygu a'i fesur yn erbyn y meini prawf ar gyfer llwyddiant y camau gweithredu oddi fewn iddo. Bu iddi ddiolch i staff y portffolio addysg am yr adroddiad addysg a sgiliau cadarnhaol gyda'r data yn tynnu sylw at y sgorau COG oedd yn disgyn rhwng oren, lle'r oedd y camau gweithredu yn cael eu datblygu neu wyrdd, lle'r oedd y camau gweithredu yn gyflawn neu ar y trywydd iawn.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Dave Mackie o ran dysgu digidol a Gwasanaethau Ieuenctid Integredig, eglurodd y Prif Swyddog bod yr Ymgynghorydd Dysgu Cynradd wedi darparu cymorth ardderchog i ysgolion gydag adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar yr offer, meddalwedd a chaledwedd sydd ar gael i alluogi gwelliannau yn y strwythur digidol. Roedd gwaith hefyd yn parhau i sicrhau bod ysgolion yn gallu cael mynediad at y cyllid helaeth a ddarperir i Lywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer hyn a gafodd ei adrodd i gyfarfodydd Bwrdd Digidol Hwb. Amlinellodd yr Uwch Reolwr, Systemau Gwella Ysgolion, y gwaith a wnaed ar draws Cymru o ran cyflwyno'r rhaglen Hwb gyda'r Ymgynghorydd Dysgu Cynradd yn ymgymryd ag archwiliadau rheolaidd o'r ddarpariaeth sydd ar gael i'r 24,000 o ddysgwyr ar draws yr holl ysgolion yn Sir y Fflint. Cynhaliwyd trafodaethau gydag ysgolion hefyd, a oedd gyda'r cysylltiad o ddydd i ddydd hwnnw gyda rhieni, i ddeall unrhyw newid mewn amgylchiadau neu anawsterau a wynebwyd gan ddisgyblion wrth gael mynediad at yr isadeiledd

digidol y tu allan i'r ysgol. Cynhaliwyd trafodaethau parhaus gyda LIC o ran symud hwn ymlaen a chynnal buddsoddiad cenedlaethol trwy'r Rhaglen Hwb i wella'r strwythur digidol a darparu'r cwricwlwm newydd.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at y cynllun cyflawni ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid Integredig ac eglurodd bod y targedau yng Nghynllun y Cyngor wedi'u gosod cyn y flwyddyn adrodd hon ac y byddai'n cael ei newid ar gyfer 2023. Roedd y cynllun newydd wedi'i ddatblygu a chynhaliwyd ymgynghoriad gyda phobl ifanc gyda'r Uwch Reolwr newydd yn y gwasanaeth yn ail-ymweld â'r cynllun. Bu iddi egluro mai Covid oedd yn gyrru'r cynnig digidol ond bellach bod y gwasanaeth yn dychwelyd at normalrwydd roedd y bobl ifanc wedi gofyn iddo fod yn fwy wyneb yn wyneb. Ni fyddai'r targed i gynnal pwyslais ar fwy o ymgysylltiad digidol yn cael ei symud ymlaen yng Nghynllun newydd y Cyngor gan fod yr amgylchiadau a'r adborth gan y bobl ifanc wedi newid a byddai'r targed a adolygwyd yn canolbwyntio'n fwy ar welliannau i'r cynnig wyneb yn wyneb.

Gofynnodd y Cynghorydd Mackie am y wybodaeth ddiweddaraf am adeiladu'r Campws 3 i 16 ym Mynydd Isa a datblygiad y cynlluniau gweithredu mewn perthynas ag Iechyd a Lles Emosiynol. Cadarnhaodd y Prif Swyddog eu bod wedi cyrraedd terfyn ariannol a bod contractwyr ar y safle ym Mynydd Isa. Bu iddi hefyd egluro y byddai'r cynlluniau gweithredu Iechyd a Lles Emosiynol yn cael eu ffurfio yn nhymor yr haf gydag archwiliadau yn cael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth pan ellir nodi ffigur.

Mewn ymateb i gwestiynau pellach gan y Cynghorydd Mackie o ran cyfleoedd dysgu digidol, darpariaeth amgen i bobl ifanc a thargedau'r Brifysgol Agored a gefnogwyd gan Aura, dywedodd y Prif Swyddog y byddai'n gwirio gydag Aura pam fod y niferoedd cynyddol o gyfleoedd dysgu digidol a gwblhawyd yn 0% ar hyn o bryd yn dilyn y cyfarfod ac yn darparu ymateb i'r Pwyllgor. Bu iddi hefyd awgrymu bod swyddog o Aura yn bresennol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol wrth ystyried yr adroddiadau monitro perfformiad i sicrhau y gellir darparu ymatebion i gwestiynau i'r Pwyllgor.

Nododd y Prif Swyddog y sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst o ran bod y sylwadau yn amwys a dywedodd y byddai'n gofyn i Aura ddarparu gwybodaeth fwy manwl, yn enwedig yn erbyn rhai o'u targedau. Bu iddi hefyd gytuno i edrych ar gamau gweithredu ei phortffolio i wella'r geiriad lle bo angen.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Gladys Healey ar ddarparu offer digidol i'r teuluoedd hynny mewn tlodi, cadarnhaodd y Prif Swyddog bod hyn yn digwydd. Roedd LIC wedi darparu cyllid sylweddol i wella'r isadeiledd ar draws Cymru gydag ysgolion yn cael eu harchwilio o ran yr offer a'r gefnogaeth a ddarperir i deuluoedd. Cafodd y teuluoedd hyn eu blaenoriaethu yn ystod y pandemig i sicrhau bod ganddynt offer a Wi-Fi i alluogi disgyblion i barhau i dderbyn eu haddysg. Roedd yn flaenoriaeth bod cynnig teg ar gael drwy gydol eu hysgolion a bod yr holl ddisgyblion yn gallu cwblhau'r gwaith ar-lein a osodwyd iddynt. Ychwanegodd y Prif Swyddog, Gwella Ysgolion, bod disgyblion hefyd yn gallu defnyddio'r offer a ddarperir mewn clybiau gwaith cartref ar ôl ysgol mewn llyfrgelloedd gydag ysgolion unigol yn darparu gwahanol gefnogaeth i'w dysgwyr a theuluoedd.

Cafodd yr argymhellion, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd Mel Buckley a'u heilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r lefelau o gynnydd a hyder o ran cyflawni'r blaenoriaethau canol blwyddyn yng Nghynllun y Cyngor 2022/23;

(b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo a chefnogi perfformiad cyffredinol yn erbyn dangosyddion perfformiad canol blwyddyn Cynllun y Cyngor 2022/23; a

(c) Bod y Pwyllgor wedi cael sicrwydd drwy'r eglurhad a roddwyd ar gyfer y meysydd hynny sy'n tangyflawni.

## 46. AELODAU'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.21 pm)

..............................

**Y Cadeirydd**